Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.12 Cyllid i brosiectau sy'n ymwneud ag ieuenctid

Mae llawer o sefydliadau sydd eisiau ariannu prosiectau a fwriedir ar gyfer pobl ifanc. Mae gan nifer o gyllidwyr gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn awr raglenni sy'n rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag ieuenctid.

Nid yw'r rhestr hon yn rhestr gyflawn ond yn hytrach mae'n dangos y math o gyllid sydd ar gael i raglenni sy'n ymwneud ag ieuenctid.

Cronfa Loteri Fawr

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni grantiau sydd â'r nod o wneud gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae nhw eisiau cefnogi prosiectau sy'n datblygu sgiliau pobl, yn hyrwyddo cynnwys y gymuned ac yn annog ffyrdd mwy iach o fyw.

Arian i Bawb Cymru

Mae Arian i Bawb Cymru'n ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymunedau lleol, gan ddod â nhw ynghyd a'u galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau cymunedol sy'n hyrwyddo addysg, yr amgylchedd ac iechyd yn y gymuned leol.

Mae grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gael.

Mae pecynnau cais ac arweiniad ar gyfer Arian i Bawb ar gael ar y wefan, www.arianibawb.org.uk, neu gallwch ffonio 01686 611 700 i gael copi caled.

Nid oes gan Arian i Bawb Cymru unrhyw derfyn amser na dyddiad cau.

Pawb a'i Le

Mae Pawb a'i Le'n ceisio dod â phobl ynghyd i wneud eu cymunedau'n gryfach a gwella eu hamgylcheddau gwledig a threfol. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi pobl i gydweithio a gwneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i fyw. Bydd yn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol ynghyd â phrosiectau sy'n gweithredu ar draws Cymru.

Gall Pawb a'i Le ariannu prosiectau sy'n cyflawni un neu fwy o'r canlyniadau rhaglen canlynol:

- adfywio cymunedau
- gwella cysylltiadau cymunedol
- gwella amgylcheddau, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol.

Mae'r rhaglen hon yn agored i'r sectorau cymunedol gwirfoddol a chyhoeddus. Bydd arian ar gael ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf, a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cymunedau neu gymunedau buddiant yng Nghymru.

Mae mwy o wybodaeth am Bawb a'i Le ynghyd â phecynnau ymgeisio a gwybodaeth am ein rhaglenni eraill ar gael wefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Cysylltwch â:

Gronfa Loteri Fawr, 2il Lawr, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB.
Ffôn: 01686 611 700
Ffacs: 01686 621 534
enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk
www.biglotteryfund.org.uk

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Gwreiddiau ifanc
Mae'r rhaglen hon yn cynnig i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda phobl ifanc 13-20 oed (neu 13-25 i bobl ifanc ag anghenion arbennig) rhwng £5,000 a £25,000 ar gyfer prosiectau sy'n helpu'r grŵp oedran hwn i ddysgu am eu treftadaeth, meithrin sgiliau, magu hyder a hybu cyfranogaeth gymunedol.

Mae prosiectau Gwreiddiau ifanc yn deillio'n uniongyrchol o ddiddordebau a syniadau pobl ifanc, gan ddefnyddio eu creadigrwydd a'u hegni a'u helpu i weithio gydag eraill yn eu cymuned leol.

Rhaid i brosiectau ymwneud â threftadaeth leol a diwylliannol amrywiol y DU. Mae grantiau yn amrywio rhwng £5,000 a £25,000 a dylai prosiectau bara am hyd at 18 mis.

Cysylltwch â:
Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Ystafell 5a, Tŷ Hodge, Plas y Neuadd,
Caerdydd CF10 1DY
Ffôn: 029 2034 3413
Ffacs: 029 2034 3427
www.hlf.org.uk

Dyfarniadau i ymgyrchoedd bwyd lleol (Cymru)

Noddir y dyfarniadau i ymgyrchoedd bwyd lleol gan Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru. Nod y dyfarniadau yw cydnabod cyfraniadau unigolion neu dimau at gynlluniau maeth lleol yng Nghymru, cynlluniau a gafodd effaith bositif ar ddiet neu arferion bwyta trigolion y cymunedau lle maent yn gweithredu.

Anogir yn benodol brosiectau sy'n targedu cymunedau agored i niwed a dan anfantais, grwpiau incwm isel neu leiafrifoedd ethnig. Bydd yr enillwyr yn cael £2,000 i'w fuddsoddi yn eu cynllun bwyta'n iach, a rhoddir £1,000 i'r ail. Byddwn yn adrodd am fanylion dyfarniadau 2007 pan fyddant ar gael.

Cysylltwch â:
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru,
Llawr 11 Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd,CF10 1EW
Ffôn: 029 2067 8912
nutritionstrategywales@foodstandards.gsi.gov.uk
www.food.gov.uk

Sport Relief

Grantiau o hyd at £5,000 i gynorthwyo gweithgareddau sy'n helpu i wella ansawdd bywyd i blant a phobl ifanc yn y DU ac ar draws y byd lle mae tlodi ac anfantais yn creu anghyfiawnder cymdeithasol a chaledi.

Cysylltwch â:
Sport Relief, 5th Floor, 89 Albert Embankment, Llundain SE1 7TP
Ffôn: 020 7820 5555
info@sportrelief.com
www.sportrelief.com
www.comicrelief.com

Sportsmatch Cymru

Mae'r cynllun Sportsmatch yn annog busnes i noddi chwaraeon ymhlith y bobl a chynigia ddyblu'r gronfa arian sydd ar gael gan y busnes sy'n noddi ar sail punt am bunt.

O ganlyniad i hyn, bydd y busnes sy'n noddi yn cael manteision masnachol a bydd y corff sy'n trefnu yn sicrhau dwbl yr incwm ar gyfer ei brosiect. Mae'r grantiau fel arfer rhwng £5,000 a £15,000.

Cysylltwch â:
Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW
Ffacs: 0845 846 0014
info@sportwales.org.uk
www.sportwales.org.uk

Y Gist Gymunedol

Un o gynlluniau grant y Loteri Genedlaethol a fwriedir i ddatblygu chwaraeon ymysg y bobl, yn enwedig i bobl ifanc, menywod a merched a grwpiau dan anfantais. Gwneir y penderfyniadau am grantiau dan £1,000 yn lleol.

Sefydlwyd pwyllgorau yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac ar y pwyllgorau hyn y mae pobl leol sydd â gwybodaeth am chwaraeon yn yr ardal.

Cysylltwch â:
Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW
Ffacs: 0845 846 0014
info@sportwales.org.uk
www.sportwales.org.uk

Cynllun grant sector gwirfoddol Her Iechyd Cymru

Diben y cynllun grant hwn yw atgyfnerthu gwaith hybu iechyd yng Nghymru. Cynigir grantiau i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol a all gyfrannu at hybu iechyd ac ategu datblygiadau cenedlaethol mewn hybu iechyd yng Nghymru.

Mae'r cylchoedd cyllido yn gwahodd ceisiadau sy'n ymateb i Her Iechyd Cymru drwy:

- Helpu i ddylanwadu ar yr amodau sy'n angenrheidiol i bobl fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd.
- Helpu unigolion a grwpiau i wneud yr hyn y gallant i wella eu hiechyd eu hunain a'u teuluoedd.
- Helpu i gyfleu'r neges 'gwell iechyd' yn fwy effeithiol.
- Gwella gallu mudiadau gwirfoddol a chymunedol i ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i lunio polisïau ac arferion hybu iechyd. Gallai hyn o bosib olygu gweithio un ai'n unigol neu ar y cyd gydag, er enghraifft, Canolfan Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol a phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lleol i sicrhau gwell canlyniadau iechyd yng Nghymru.

Dyma themâu iechyd allweddol Her Iechyd Cymru:

- Ysmygu.
- Gordewdra.
- Damweiniau ac anafiadau.
- Camddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.
- Heintiau (a drosglwyddir trwy ryw; a geir drwy ofal iechyd; y gall brechiad eu hatal; pydredd dannedd).
- Iechyd a lles meddwl.

Cysylltwch â:
Natalie Avery
Ffôn: 029 2082 6246
cmo.webmaster@wales.gsi.gov.uk

Gwirfoddolwyr y Mileniwm

Mae Gwirfoddolwyr y Mileniwm yn rhaglen DU gyfan i bobl ifanc sy'n gwirfoddoli neu sydd â diddordeb mewn gwneud. Diben y rhaglen yw hybu a chydnabod ymrwymiad parhaus gan bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i weithgarwch gwirfoddol sy'n cael effaith amlwg ar y gymuned.

Yng Nghymru, rheolir y rhaglen gan Banel Ymgynghorol GyM, sy'n bartneriaeth rhwng WCVA a Chyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru. Gellir gwneud ceisiadau am symiau o rhwng £50 a £7,000 i dalu costau gwirfoddolwyr. Cewch wneud faint fynner o geisiadau. Gellir cymeradwyo ceisiadau oddi wrth brosiectau dan ofal ieuenctid yn gyflym iawn drwy system garlam. Mae'r panel ymgynghorol yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â:
Llinell Gymorth WCVA
Ffôn: 0800 2888 329
help@wcva.org.uk
www.wvca.org.uk

Grantiau i fudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol

Mae'r cynllun hwn yn bodoli i gynorthwyo mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol sy'n gweithio yng Nghymru i gynyddu swmp a sylwedd rhaglenni dysgu cymdeithasol anffurfiol i bobl ifanc yn yr ystod oedran 11 i 25, gyda phwyslais penodol ar rai 13 i 19 oed.

Mae'n darparu cymorth ariannol tuag at gostau canolog, a phrosiectau a gynhelir gan un sefydliad neu gyfuniad o sefydliadau ac asiantaethau. Mae unrhyw sefydliad cenedlaethol a all ddangos ei fod yn darparu gwaith ieuenctid da (fel y diffinia Datganiad Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cymru) yn gymwys i ymgeisio. Nid yw'r cynllun hwn yn agored i sefydliadau na grwpiau ieuenctid gwirfoddol lleol na grwpiau sy'n aelodau o sefydliadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol.

Mae nodiadau canllaw a ffurflenni cais ar gael oddi wrth yr Is-adran Polisi Ieuenctid.

Cysylltwch â:
Alison Tranter, Is-adran Polisi Ieuenctid, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, C aerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 1552
Ffacs: 029 2082 5823
alison.tranter@wales.gsi.gov.uk

Alec Dickson Trust

Arian grant i bobl dan 30 oed sy'n gallu dangos y gallant, drwy waith gwirfoddol neu gymunedol, wella bywydau eraill, yn enwedig y rheini sydd fwyaf ar gyrion cymdeithas, (e.e. y rheini sy'n ddibynnol ar gyffuriau).

Bydd yr ymddiriedolaeth yn ariannu:
- Prosiectau gwirfoddoli a leolir yn y DU.
- Grantiau o hyd at £250.

Mae'r ymddiriedolaeth yn croesawu yn arbennig geisiadau oddi wrth brosiectau arloesol yn naws Alec Dickson - prosiectau y mae pobl ifanc eu hunain wedi eu dyfeisio ac sy'n annhebygol o gael eu hariannu gan ymddiriedolaethau elusennol eraill.

Cysylltwch â:
The Alec Dickson Trust, 172-176 Kings Cross Road, Llundain WC1X 9NJ
thealecdicksontrust@talk21.com
www.alecdicksontrust.org.uk

Comic Relief

Sefydlwyd Comic Relief ym 1984 i helpu pobl dan anfantais yn y DU ac yn Affrica. Codir arian drwy weithgareddau megis y Diwrnod Trwynau Coch. Rhoddir grantiau yn y DU i gynorthwyo mudiadau gwirfoddol i fynd i'r afael â thlodi a hybu cyfiawnder cymdeithasol.

Bwriedir i Comic Relief gyrraedd y bobl dlotaf sydd dan yr anfantais fwyaf, helpu i ganfod atebion i'w problemau, rhoi llais i bobl sy'n wynebu gwahaniaethu, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, a chynorthwyo gwaith sy'n dylanwadu ar bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Rhaglenni a blaenoriaethau:

- Pobl ifanc ac iechyd meddwl.
- Pobl ifanc ac alcohol.
- Pobl ifanc a gaiff eu cam-drin drwy buteindra.
- Pobl hŷn.
- Iechyd meddwl.
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid.
- Trais yn y cartref a chymunedau dan anfantais.

Cysylltwch â: UK Grants Team,
89 Albert Embankment, Llundain E1 7TP
Ffôn: 020 7820 5555
Ffacs: 020 7820 5500
Minicom: 020 7820 5579
ukgrants@comicrelief.org.uk www.comicrelief.com

LankellyChase Foundation

Dros y pedair blynedd nesaf bydd y sefydliad hwn yn canolbwyntio ar y rhaglenni canlynol:

- Celfyddydau.
- Treftadaeth.
- Torri'r cylch (perthnasau camdriniol).
- Datblygu cymunedau.
- Meddyliau rhydd a thawel.
- Troseddwyr a chymdeithas.

Torri'r cylch (perthnasau camdriniol)
Drwy gyfrwng y rhaglen hon mae'r rhaglen yn gweithio i gynorthwyo prosiectau sy'n ceisio torri'r cylch o gamdriniaeth drwy weithio gyda theuluoedd, plant a/neu bobl ifanc.

Dyma'r elfennau sy'n canolbwyntio ar ieuenctid:

Plant (5 – 13 oed)
Prosiectau sy'n helpu plant sy'n byw gyda thrais yn y cartref neu'r rheini sy'n hybu diogelwch plant, gan gynnwys:

- Gwaith plant mewn llochesi.
- Rhaglenni annibynnol i blant sydd â phrofiad o fyw gyda thrais yn y cartref.
- Gwaith sy'n hybu amddiffyn plant.

Pobl Ifanc (13 – 25 oed)
Prosiectau sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc sydd ar y cyrion oherwydd problemau ymddygiad a/neu broblemau personol ac sy'n byw mewn amgylchiadau difreintiedig, gan gynnwys:

- Rhaglenni gweithgareddau i wella cyrhaeddiad addysgol, sgiliau byw neu gyfleoedd cyflogaeth.
- Gwaith ataliol gyda phobl ifanc ddigartref mewn ardaloedd o amddifadedd gwledig.

Ni fydd y sefydliad ond yn gweithio gydag elusennau a'r rheini sy'n defnyddio ac yn cynorthwyo gwirfoddolwyr yn briodol. Bydd cynlluniau cymunedol yn cael eu ffafrio.

Ystyrir costau craidd i'r sefydliadau hynny sydd ag incwm sy'n llai na £150,000. Anogir ceisiadau oddi wrth leiafrifoedd ethnig a phobl ddu sy'n bodloni anghenion diwylliannol ac yn hybu integreiddiad.

Ymysg eithriadau amlwg y mae gwariant cyfalaf, addysg atodol, cyfryngu neu gwnsela ar gyfer galar a phrosiectau sy'n gweithio'n benodol gydag addysg ac ailsefydlu i rai sy'n camddefnyddio sylweddau a chyffuriau.

Cynlluniau chwarae haf i blant
Yn ogystal, mae'r sefydliad yn cynnig grantiau bychan (£200 - £500) ar gyfer yr uchod i blant 5 - 13 oed.

Ffafrir cynlluniau chwarae lleol bychan sy'n para 4-6 wythnos a grwpiau sy'n trefnu gweithgareddau arbennig i blant sydd dan anfantais neu sydd ag anabledd. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau haf i blant mewn llochesi.

Cysylltwch â:
LankellyChase Foundation, 2 The Court, High Street, Harwell, Didcot,
Oxfordshire, OX11 0EY
Ffôn: 01235 820 044
admin@lankellychase.org.uk
www.lankellychase.org.uk

The Ragdoll Foundation

Ariennir y sefydliad hwn drwy ei 15 y cant o gyfranddaliad yn y rhiant-gwmni ac mae'n rhoi grantiau i brosiectau sy'n hybu datblygiad plant drwy feddwl dychmygus ac sy'n dangos gwir ddealltwriaeth o sut i wrando ar blant a chaniatáu iddynt leisio'u barn.
Y dyddiad cau nesaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 28 Awst 2007.

Mae'r sefydliad yn rhoddi grantiau i sefydliadau sy'n cynnwys plant yn eu blynyddoedd cynnar. Ystyrir grantiau graddfa fawr, ond mae'r rhan fwyaf yn amrywio o £500 i fyny.

Nid oes cais safonol, a'r oll y gofynnir amdano i ddechrau ydy paragraff ysbrydoledig yn esbonio'r prosiect neu'r syniad (gweler y wefan am ragor o wybodaeth).

Cysylltwch â:
Ragdoll Foundation, Timothy's Bridge Road, Stratford upon Avon,
Warwickshire, CV37 9NQ
Ffôn: 01789 404 100.
karenn@ragdollfoundation.org.uk
www.ragdollfoundation.org.uk

Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant

Mae'r gronfa hon, a weinyddir gan yr Eglwys yng Nghymru, yn cynorthwyo plant mewn angen a'u teuluoedd a'u cymunedau lleol drwy waith sefydliadau lleol.

Sefydlwyd Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant yn 2001 yn sgîl penderfyniad Cymdeithas y Plant i dynnu'n ôl o bob gweithgaredd yng Nghymru.

Nodau ac amcanion

Diben y gronfa yw cynorthwyo plant mewn angen a'u teuluoedd a'u cymunedau lleol, drwy waith sefydliadau yn y drefn flaenoriaeth hon:

- Y rheini yn Esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru.
- Y rheini sy'n gysylltiedig â chyrff Cristnogol eraill sy'n aelodau o Cytûn.
- Sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda phlant yng Nghymru.

Cysylltwch â:
Cronfa Archesgob Cymru er budd Plant, Yr Eglwys yng Nghymru, 39 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9XF
Ffôn: 029 2034 8254
awfc@churchinwales.org.uk
www.churchinwales.org.uk/awffc

The Baily Thomas Charitable Fund

Sefydlwyd yr elusen gofrestredig hon yn bennaf i gynorthwyo'r ymchwil i anabledd dysgu a'r gofal a'r cymorth a gynigir i'r rheini y mae anableddau dysgu yn effeithio arnynt.

Rhoddir dros £1 miliwn mewn grantiau o £250 a throsodd. Ni roddir ystyriaeth i ond mudiadau gwirfoddol sy'n elusennau cofrestredig, sy'n gysylltiedig ag elusen gofrestredig neu o ysgolion neu Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn 1 Mai neu 1 Hydref.

Cysylltwch â:
c/o TMF Management UK Limited, 410 Capability Green, Luton LU1 3AE
Ffôn: 01582 439225
info@bailythomas.org.uk

Apêl Plant mewn Angen y BBC (Cymru)

Nod Apêl Plant mewn Angen y BBC yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant sydd dan anfantais yn y DU.

Blaenoriaethau - mae'r Apêl yn helpu plant 18 oed ac iau yn y Deyrnas Unedig y mae eu hanfantais yn cynnwys:

- Anableddau meddwl, corfforol neu synhwyraidd.
- Problemau ymddygiad neu seicolegol.
- Yn byw mewn tlodi neu sefyllfaoedd o amddifadedd, gwaeledd, gofid, camdriniaeth neu esgeulustod.

Cysylltwch â:
Y Cydlynydd Cenedlaethol, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ
Ffôn: 029 2032 2383
Ffacs: 029 2032 2337
marc.phillips@bbc.co.uk
www.bbc.co.uk/cin

Equitable Charitable Trust

Mae'r ymddiriedolaeth hon yn cynorthwyo prosiectau addysg sy'n rhoi budd i blant anabl neu blant sydd dan anfantais arall.

Caiff elusennau cofrestredig, ysgolion a gynhelir ond nid gan AALl ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir ond nid gan yr AALl, ymgeisio ar gyfer costau prosiectau unwaith ac am byth gyda'r swm yn dibynnu ar y prosiect.

Mae'n hybu addysg ymysg plant neu oedolion ifanc dan 25 oed, yn enwedig y rheini o gefndiroedd dan anfantais neu'r rheini sydd ag anableddau.

Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig, ac mae'n bosib y byddai'n rhaid ymweld â'r ymgeisydd cyn y gwneir penderfyniad.

Cysylltwch â:
124 Chancery Lane, Clifford Inn,
Llundain EC4A 1BU
Ffôn: 020 7320 6292
Ffacs: 020 7320 3842

Four Acre Trust

Darperir grantiau ar gyfer gwaith sy'n syrthio i 3 phrif faes: gofal seibiant a gwyliau, cyfarwyddyd galwedigaethol a chymorth gydag anabledd iechyd.

Gall sefydliadau ymgeisio am gostau prosiect a chostau craidd ac yn achlysurol gostau cyfalaf. Gall sefydliadau wneud cais am hyd at £300,000 ond mae'r rhan fwyaf o'r grantiau a gynigir rhwng £3,000 a £5,000.

Rhaid i sefydliadau fod yn elusennau cofrestredig i ymgeisio. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn ac mae ffurflenni cais a chanllawiau ar gael i'w lawrlwytho oddi ar eu gwefan.

Cysylltwch â:
Four Acre Trust, P.O. Box 48, Wotton-under-Edge, Gloucestershire,
GL12 7WZ
Ffôn: 01453 844129
info@fouracretrust.org.uk
www.fouracretrust.org.uk

Cynllun grant Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Mae cyllid ar gael i sefydliadau gwirfoddol, nid-er-elw ac elusennol. Mae'r cynllun grant yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- Chwaraeon.
- Amgylchedd.
- Celfyddydau.
- Cymuned.

Er bod pob sefydliad yn cael ei ystyried ar ei rinweddau, rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau sy'n darparu ar gyfer pobl sydd dan anfantais oherwydd oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd neu amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd.

Uchafswm grant: Sefydliadau lleol £2,000; sefydliadau rhanbarthol £10,000; sefydliadau cenedlaethol £20,000.

Cysylltwch â:
Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, Y Gyfnewidfa Lo,
Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5ED
Ffôn: 029 2049 4963
Ffacs: 029 2049 4964
mcst@fusionuk.org.uk
www.millenniumstadium.com

The Yapp Charitable Trust

Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn rhoddi grantiau i elusennau bychan ledled y DU ar gyfer gwaith amrywiol. Ychydig iawn o geisiadau o Gymru y mae'r ymddiriedolwyr yn eu cael ar hyn o bryd a hoffent gyrraedd at ragor o elusennau yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ariannu categorïau megis gwaith gyda: phobl oedrannus; plant a phobl ifanc; pobl ag anableddau neu broblemau iechyd meddwl; pobl sy'n ceisio goresgyn problemau megis caethiwed, camdriniaeth, problemau perthynas, hanes o droseddu; a dysgu gydol oes.

Rhaid i'r ymgeiswyr fod â statws elusennol, meddu ar gyfansoddiad a bod wedi gweithredu ers o leiaf dair blynedd, a chyda throsiant arferol o lai na £60,000 y flwyddyn. Ni roddir dim grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf. Rhoddir blaenoriaeth gyda grantiau parhaus i ymgeiswyr o elusennau bychain iawn.

Cysylltwch â:
The Yapp Charitable Trust, 47A Paris Road, Scholes, Holmfirth, HD9 1SY
Ffôn: 01484 683 403
info@yappcharitabletrust.org.uk
www.yappcharitabletrust.org.uk

Percy Bilton Charity

Mae cyllid ar gael i elusennau cofrestredig sy'n gweithio i gynorthwyo pobl ifanc dan anfantais neu ddifreintiedig, pobl ag anableddau a phobl hŷn.

Grantiau ar gyfer costau cyfalaf yn unig a roddir; un ai taliadau unwaith-ac-am-byth o £2,000 neu drosodd neu roddion llai o hyd at £500.

Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg ar ffurflenni cais yr Ymddiriedolaeth a chânt eu hystyried bob chwarter.

Cysylltwch â:
The Percy Bilton Charity, Bilton House, 7 Culmington Road, Ealing, Llundain, W13 9NB
Ffôn: 020 8579 2829
Ffacs: 020 8579 3650
www.percybiltoncharity.org.uk

Elusen Blant y Variety Club

Mae arian ar gael ar gyfer costau cyfalaf, ac yn benodol i dalu costau cyfarpar arbenigol i ysgolion, ysbytai, cartrefi plant ac elusennau pobl ifanc ledled y DU. Rhaid i brosiectau gynorthwyo plant gwael, anabl neu dan anfantais hyd at 19 oed.

Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg yn ysgrifenedig; nid oes ffurflen gais benodol. Mae unrhyw grŵp nid-er-elw sy'n gweithio gyda phlant yn gymwys i ymgeisio.

Cysylltwch â:
Variety Club House, 93 Bayham Street, Llundain NW1 0AG
Ffôn: 020 7428 8100
Ffacs: 020 7428 8123
info@varietyclub.org.uk
www.varietyclub.org.uk

Cerebra

Nod grantiau oddi wrth Cerebra yw helpu plant sydd ag anableddau oherwydd anaf neu gyflwr sy'n gysylltiedig â'r ymennydd.

Rhaid i blant fod yn 16 neu'n iau i gael gafael ar y grant ac mae'r arian ar gael i dalu am amrywiol weithgareddau, cyfarpar ac adnoddau a fydd yn gwella ansawdd bywyd y plentyn.

Mae pecyn cais am grant ar gael oddi ar eu gwefan a gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg.

Cysylltwch â:
Cerebra, Adeiladau'r Principality, 13 Sgwâr Neuadd y Dref, Caerfyrddin, SA31 1PR
Ffôn: 020 8579 2829
Ffacs: 020 8579 3650
www.percybiltoncharity.org.uk

Gwobrau Yma i Helpu

Achub y Plant a Nwy Prydain sy'n rheoli'r gwobrau Yma i Helpu - sef hyd at £1,000 ar gyfer prosiectau gan bobl ifanc sy'n helpu i wneud eu cymunedau yn llefydd iachach, mwy diddorol, a diogel i fod ynddynt. Ar wefan y cynllun cewch weld manylion llawn y gwobrau Yma i Helpu a cheir proses ymgeisio ar-lein neu'r opsiwn o lawrlwytho copi caled o'r ffurflen gais. Hefyd ar gael y mae nifer gyfyngedig o wobrau o hyd at £3,000, i amlygu'r mater allweddol o dlodi. I ymgeisio am hwn bydd yn rhaid i chi gynnwys mwy o fanylion yn eich pecyn a chyflwyno cynllun prosiect llawn.

Anfonwch bob ymholiad am y gwobrau Yma i helpu at:

Cysylltwch â:
helpyourselves@savethechildren.org.uk
www.helpyourselves.org.uk

Gwobr Diana

Mae'r Wobr hon yn dathlu priodweddau cynhenid - dewrder, ymroddiad, tosturi a gwasanaeth anhunanol i eraill - pobl ifanc rhwng 12 a 18 oed, wedi'u harddangos drwy eu cyfraniad at, a'u heffaith ar, eu hysgolion, eu cymunedau a'r gymdeithas. Mae Gwobr Diana a Gwobr Gwrth-fwlio Diana ill dwy yn cynnig potensial aruthrol i'r bobl ifanc sy'n eu derbyn.

Mae'r cenhadon ifanc i'r wobr wedi eu hyfforddi mewn sgiliau sy'n eu galluogi i ddatblygu i'r eithaf yn ogystal â gweithredu fel llefarwyr dros y wobr.

Cysylltwch â: Diana, Princess of Wales Memorial Award for Young People, Floor 2, Downstream Building,
1 London Bridge, Llundain SE1 9BG,
Ffôn: 0845 337 2987
www.diana-award.org.uk

The Frank Buttle Trust

Mae cyllid ar gael i gynorthwyo pobl ifanc i ennill cymwysterau academaidd, proffesiynol, galwedigaethol neu grefft.

Rhaid i'r bobl ifanc fod â phroblemau cymdeithasol, emosiynol neu iechyd difrifol yn awr neu yn y gorffennol, sy'n golygu bod hynny wedi tanseilio eu haddysg yn aruthrol.

Mae cyllid fel arfer wedi'i gyfyngu i gynorthwyo gyda chostau byw megis rhent, bwyd, dillad, trafnidiaeth, llyfrau a deunyddiau neu gyfarpar sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cwrs.

Cysylltwch â:
The Frank Buttle Trust, Blwch SP 7, Rhaeadr Gwy, LD6 5WB
Ffôn: 01597 870 060
wales@buttletrust.org
www.buttletrust.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.